Ein Trefniadau Dros Dro

Adnoddau Addoli

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul**. Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan **www.eglwysibroaled.com,** ond cofiwch na fydd oedfa'r Sul hwnnw yn ymddangos tan ychydig funudau cyn 10.30. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth**. Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, gadewch i Mair wybod. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso 1 i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Bydd Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

Adnoddau Dysgu

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur**. Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill o bob math ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul www.ysgolsul.com.

Llais Bro Aled

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur dathliad arbennig.

Bugeiliol

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydach chi dymuno'n ffonio ni.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5 Ebrill 2020

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Cyfarchion o Heulfryn! Ers i'r Llais Bro Aled diwethaf eich cyrraedd mae pethau wedi newid cryn dipyn wrth i'r cyfyngiadau presennol ddod i rym. O ran gweithgarwch ein capeli, daeth y neges yr wythnos ddiwethaf na fydd unrhyw wasanaethau na gweithgareddau yn cael eu cynnal ynddynt tan y nodir yn wahanol, a chyda thristwch y bydd yn rhaid i ni wynebu'r realiti o wasanaethau angladd ar lan y bedd i'r teulu agosaf yn unig o hyn ymlaen (gyda chyfyngiadau tebyg ar gyfer yr amlosgfa hefyd). Golyga'r cyfyngiadau hyn y bydd mwy fyth o angen i ni fugeilio'n gilydd, a bod yn barod i gadw mewn cysylltiad â'n gilydd a'n cymdogion. Fel Bro, golyga hyn oll i'r rhai nad ydynt ar ebost na fyddwn o hyn ymlaen yn gallu dosbarthu unrhyw adnoddau na Llais Bro Aled o dŷ i dŷ, ond yn hytrach, byddwn yn eu postio. Dyna pam yr wyf yn eich annog i gysylltu â Mair neu minnau os oes diddordeb gennych mewn derbyn gwasanaeth ar bapur neu CD's sain o'r gwasanaethau, ac/neu adnoddau addoliad a myfyrdodau Beiblaidd eraill. I'r rhai ohonoch sy'n defnyddio'r we ac a geisiodd ymuno yn y darllediad byw fore Sul diwethaf, ymddiheuriadau llaes am y problemau technegol a'r diflastod a ddaeth yn eu sgil! Roedd gen i syniad fod rhywbeth o'i le ond dim ond yn ddiweddarach y daeth hi'n amlwg mai ond yr 8 munud cyntaf a ddarlledwyd yn fyw! Gobeithio eich bod erbyn hyn wedi medru cael gweddill y gwasanaeth ar y wefan. Gobeithiaf y bydd y darllediadau yn fwy di-drafferth yn y dyfodol gan weddïo y bydd hynny'n gwneud ein profiad o addoli ar-lein yn fwy dymunol! Cofiwch atgoffa unrhyw gyd-aelodau, cymdogion neu ffrindiau sydd ddim hefo cyswllt i'r we bod rhif ffôn arbennig ar gael gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru lle mae modd gwrando ar oedfa gyfan wedi'i recordio. 02920 101564 yw'r rhif ffôn allweddol ac yna pwyswch 1 am y gwasanaeth Cymraeg.

Angenrheidiol – '*essential*' – dyna'r gair yr ydym wedi ei glywed yn cael ei ailadrodd droeon dros yr wythnos ddiwethaf. A yw eich gwaith yn angenrheidiol, ydi'r daith yr ydych am ei gwneud yn angenrheidiol? Os nad yw, arhoswch gartref! Mae wedi newid pethau i gymaint ohonom dros nos, ac wedi ein gorfodi i ystyried beth yn union sydd yn angenrheidiol, neu'n gwbl allweddol yn ein bywydau. A tydi hynny ddim yn ddrwg o beth, oherwydd ein tueddiad yw peidio ystyried cwestiynau o'r fath a chymryd yn ganiataol fod popeth yn ein bywyd ni yn angenrheidiol! Ond wrth droi at y Beibl, gwelwn ddarlun tra gwahanol. Meddyliwch er enghraifft am yr adeg y bu Iesu'n cyd-fwyta yn nhŷ ei ffrindiau, Mair a Martha (Luc 10:38-42). Gallwn ddychmygu'r tyndra rhwng y ddwy chwaer wrth i un fod yn

brysur yn paratoi a'r llall yn eistedd i lawr! Ond wrth gwrs Mair, yr un sy'n eistedd ac yn gwrando ar Iesu, yw'r un sy'n cael ei chanmol er gwaethaf cwyno a rhwystredigaeth ei chwaer! A thra'r oedd Martha druan yn amlygu beth fyddem ni heddiw'n ei alw'n '*stress*', dywedodd Iesu wrthi: "Martha, Martha, yr wyt yn pryderu ac yn trafferthu am lawer o bethau, ond un peth sy'n angenrheidiol. Y mae Mair wedi dewis y rhan orau, ac nis dygir oddi arni." (Luc 10:41-42)

Yr hyn sy'n angenrheidiol yn ôl Iesu yw eistedd wrth ei draed a gwrando arno. Adnabod Iesu yn bersonol a threulio amser yn mwynhau ei gwmni a'i gariad, a gwrando ar ei Air. Sut allwn ni gymhwyso'r neges hon i'n sefyllfa ni? Yng nghanol dryswch, pryderon am ein gilydd ac ofn gwirioneddol am y dyfodol, ydych chi wedi dewis y rhan orau fel Mair? Mae hyn mor bwysig oherwydd beth mae Iesu yn ei ddatgan – mae'r hyn sydd gan Iesu i'w bobl yn ddiogel am byth – ni chaiff ei gymryd oddi arnom. A gallwn fod yn sicr o hyn oherwydd buddugoliaeth ryfeddol Iesu. Concrodd Crist ein holl elynion trwy ei Groeshoeliad a'i Atgyfodiad ac mae heddiw'n "eistedd yn y sedd anrhydedd ar ochr dde Duw yn pledio ar ein rhan ni." (Rhufeiniaid 8:34 Beibl.net) Dyna obaith y Pasg i Gristnogion ar hyd a lled y byd, ac yn wir, dyna obaith dyddiol y Cristion wrth wynebu pob math o gyfyngderau.

Rhodri

Cofion

Anfonwn ein cofion atoch oll gan obeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel y dyddiau hyn. Os oes unrhyw un ohonoch yn gorfod hunan-ynysu gartref ac nad oes gennych rywun i droi ato i ddod â neges a phresgripsiwn neu unrhyw beth arall hanfodol i chi, plîs cysylltwch â Rhodri neu Mair ac fe wnawn ein gorau i weld sut allwn eich helpu.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eirian Jones (Llannefydd) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei thad. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Mae eraill o'n plith yn galaru am anwyliaid hefyd a gweddïwn y byddant hwythau yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.

Rydym yn anfon cofion hefyd at Gwyneth Rawson (Llanfair) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Mair Williams (Llansannan) dreuliodd gyfnod yno yn dilyn anffawd ond sydd bellach wedi cael mynd yn ôl i'r cartref ac sy'n gwella ychydig bach mwy bob dydd. Da clywed fod Dilys Jones (Nantglyn) hefyd wedi cael dod adre o'r ysbyty a'i bod hithau yn gwella. Parhawn i'w cofio yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Oedfa'r Groglith

Er na fyddwn yn medru cynnal ein hoedfa arferol mewn capel ar fore Gwener y Groglith, bwriadwn ddarlledu oedfa ar wefan www.youtube.com **am 10.30 y bore.** Bydd y cyswllt yma hefyd yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan **www.eglwysibroaled.com** y bore hwnnw. (Cofiwch na fydd y darllediad yn ymddangos tan ychydig funudau cyn y darllediad.) Os na allwch ymuno â ni am 10.30, bydd modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.

Arian Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Fel y byddwch yn sylweddoli, ni fydd Dathliad Cenhadol Sasiwn Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cael ei gynnal eleni.

Er hynny, daeth neges i ddweud eu bod yn parhau i dderbyn y casgliad cenhadol gan ei bod yn hanfodol ein bod yn medru parhau i gefnogi'r prosiectau ac unrhyw gais am grant ddaw i law.

Diolch i'r eglwysi sydd eisoes wedi cyfrannu. Os oes eglwysi eraill wedi derbyn cyfraniadau gan aelodau, a wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', neu croeso i chi gysylltu i gael y manylion banc os ydych am dalu dros y we) ERBYN **Ebrill 7fed**, os gwelwch yn dda?

Ydach chi'n defnyddio e-bost?

Gan nad ydym bellach, oherwydd y cyfyngiadau presennol, yn dosbarthu unrhyw ohebiaeth o dŷ i dŷ, bydd rhai ohonoch **(os ydach chi wedi rhoi caniatâd i ni ar y ffurflen Diogelu Data)** wedi derbyn y rhifyn hwn o Llais Bro Aled trwy'r post. Os ydach chi'n defnyddio e-bost a'ch bod yn fodlon inni anfon unrhyw wybodaeth i chi ar e-bost o hyn allan, plîs wnewch chi anfon neges i mair@eglwysibroaled.com?

Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copïau o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydach chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, unwaith eto plîs gadewch i Mair wybod.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (15fed), os gwelwch yn dda.